Astudiaethau Busnes – Gradd Atodol BA (Anrh) (Amser Llawn Neu Rhan-Amser)

Mae'r rhaglen hon yn adeiladu ar yr ymwybyddiaeth o fusnes a gafwyd ar lefelau 4 a 5 i ddatblygu ymhellach y sgiliau, yr agweddau a'r ymddygiadau sy'n ofynnol mewn amgylchedd busnes modern.

Gellir astudio'r rhaglen hon ar sail lawn-amser neu ran-amser.

Cod UCAS: N100

Gofynion Mynediad

Gellir cael mynediad i gyrsiau atodol trwy gwblhau'r HND neu'r Radd Sylfaen (FD) mewn Astudiaethau Busnes yn llwyddiannus.

Os oes gennych HND neu Radd Sylfaen mewn pwnc arall, caiff mynediad i'r cwrs ei bennu yn ôl y modiwlau yr ydych wedi'u cyflawni.

Rhagolygon Gyrfa

Gallwch gamu ymlaen at amrywiaeth o gyrsiau ôl-raddedig sy'n gysylltiedig â busnes.

Mae gan raddedigion ragolygon gyrfa mewn ystod eang o ddisgyblaethau busnes, er enghraifft: rheoli busnes, ymgynghoriaeth, cyfrifyddu, ymchwil defnyddwyr, dadansoddi ystadegol, marchnata a rheoli adwerthu.

Manylion y cwrs

Mae'r modiwlau'n cynnwys Strategaeth Fusnes, Busnes Rhyngwladol, Cyfathrebu Busnes, Moeseg a Chynaliadwyedd; Theori ac Ymarfer, Theori ac Ymarfer Cyfrifyddu a Phrosiect Ymchwil Busnes.

Asesiad

Fel arfer bydd yn rhaid i chi gwblhau cyflwyniadau, aseiniadau ysgrifenedig a phrofion yn yr ystafell ddosbarth wrth i chi gamu ymlaen drwy'r rhaglen. Mae arholiad yn ofynnol ar gyfer un modiwl.

DULL ASTUDIO
HE

LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS
1 Flwyddyn Llawn-Amser, 2 Flynedd Rhan-Amser

FFIOEDD
Ffioedd 2019/20: Llawn-Amser: £9000 y Flwyddyn Rhan-Amser: £1980 y Flwyddyn

DYDDIAU/AMSEROEDD
Llawn-Amser: Dydd Llun a Dydd Mawrth 9yb - 5yp Rhan Amser: Dydd Llun 5yh-9yh neu Dydd Mawrth 9yb-5yp